Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru

National Independent Safeguarding Board Wales

**<u>Cyfarfod y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol</u>**

**Cofnodion y cyfarfod**

**Dyddiad:** 11 Mehefin 2025 **Amser:** 09.30am Cyfarfod Teams

**Yn bresennol:**

- Tony Young (Cadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol)
- Lin Slater (Is-gadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol)
- Carys James (Aelod o'r Bwrdd Cenedlaethol)
- Artie Meakin (Aelod o'r Bwrdd Cenedlaethol)
- Emma Logan (Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Cenedlaethol)

**Ymddiheuriadau:**

- Desmond Mannion (Aelod o'r Bwrdd Cenedlaethol)

**Eitemau ar yr agenda a chrynodeb manwl:**

**1. Croeso ac ymddiheuriadau:**

Dechreuodd y cyfarfod gyda gair o groeso gan y Cadeirydd, a nodwyd yr ymddiheuriadau.

**2. Gwrthdaro o ran buddiannau:**

Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau ddatgan unrhyw wrthdaro o ran buddiannau. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau.

**3. Cofnodion a chamau gweithredu'r cyfarfod blaenorol:**

Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol eu hadolygu a'u cymeradwyo gyda mân newidiadau.

**4. Arolwg Diogelu yng Nghymru: Adrodd mandadol**

Nodwyd bod Llywodraeth Cymru yn cynnal arolwg i gasglu barn am argymhelliad 13 adroddiad yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol ynghylch adrodd

mandadol, a'i bod yn archwilio goblygiadau cyflwyno dyletswyddau adrodd mandadol neu fesurau eraill ar gyfer unigolion sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion a allai fod yn wynebu risg. Nodwyd iddi fod yn anodd mynychu'r gweithdai cysylltiedig.

Nododd y Cadeirydd fod Llywodraeth Cymru o'r farn yn flaenorol bod deddfwriaeth gyfredol a chanllawiau 'Gweithio gyda'n Gilydd' yn darparu eisoes ar gyfer adrodd mandadol. Cytunwyd y byddai'r Bwrdd Cenedlaethol yn cyflwyno ymateb. Efallai y bydd angen estyniad byr er mwyn gallu cyflawni hynny. Caiff ymateb ei ddrafftio i'w rannu ag aelodau'r Bwrdd, a gofynnir am estyniad byr i'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion.

**5. Ymddiriedolaeth Ann Craft:**

Ni chafwyd cadarnhad ynghylch presenoldeb, felly nodwyd y byddai camau dilynol yn cael eu cymryd ac y byddai cyfle'n cael ei gynnig i fynychu un o gyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol.

**6. Uwch-reolwr Polisi Pobl Hŷn, Llywodraeth Cymru:**

Roedd Hazel Jones (Uwch-reolwr Polisi Pobl Hŷn, Llywodraeth Cymru) yn bresennol i roi diweddariad i'r Bwrdd Cenedlaethol ynghylch y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Atal Cam-drin Pobl Hŷn. Mae'r gwaith hwn yn symud yn ei flaen ac mae ar fin cael ei gwblhau. Mynegwyd pryderon ynghylch y diffyg ymgysylltu â Byrddau Diogelu Rhanbarthol. Mynegodd y Bwrdd y gobaith y byddai'r polisi a'r gwaith o'i roi ar waith drwy'r cynllun gweithredu yn cyd-fynd â'r fframwaith diogelu ehangach ac yn cynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol.

**7. Taryn Stephens, Dirprwy Brif Swyddog Gofal Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru – Diweddariad:**

*Adolygiad o drefniadau llywodraethiant:* Mae adolygiad o drefniadau llywodraethiant ar gyfer diogelu'n cael ei gynllunio, a bydd adolygydd annibynnol yn cael ei gomisiynu i gynnal yr adolygiad. Bydd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn rhan o gwmpas yr adolygiad. Bydd hynny'n ddefnyddiol o ran egluro trefniadau llywodraethiant ar gyfer diogelu ar draws y dirwedd ddiogelu yng Nghymru. Mae cylch gwaith yn cael ei ddatblygu ar gyfer yr adolygiad, a'r amserlen ar gyfer cynnal yr adolygiad fydd Medi 2025-Ebrill 2026.

*Adolygiad Diogelu Unedig Sengl:* Bwriedir cael trafodaeth â'r Bwrdd Cenedlaethol ar ôl mis Gorffennaf i ystyried sut y gellir defnyddio'r methodolegau sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer dysgu, h.y. adolygiadau thematig a dysgu peirianyddol o adolygiadau ymarfer, er mwyn sicrhau'r effaith orau.

*Proses recriwtio:* Ystyriwyd trosolwg o'r broses recriwtio ar gyfer penodi Cadeirydd newydd y Bwrdd Cenedlaethol. Os yw'r Bwrdd yn brin o gapasiti, mae'n bosibl y gellid cynnal proses recriwtio allanol. Yr amcan yw sicrhau bod y Cadeirydd newydd yn ei le

gyda digon o gyfnod i drosglwyddo'r awenau cyn i gyfnod y Cadeirydd presennol ddod i ben ym mis Mai 2026.

*Data Rhan 5:* Mewn ymateb i ymholiad y Byrddau ynghylch pa ddata sydd ar gael yn ymwneud â Rhan 5 Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan, awgrymwyd y dylai'r eitem hon fod yn eitem i'w thrafod â Chadeiryddion y Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn y cyfarfod nesaf sydd wedi'i gynllunio ar gyfer mis Gorffennaf.

*Cynllun Gweithredu Pobl Hŷn:* Mynegodd y Cadeirydd y pryderon canlynol am y diweddariad cynharach ynghylch y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Atal Cam-drin Pobl Hŷn. Yn benodol, awgrymwyd y gellid cryfhau'r cynllun gryn dipyn a'i wneud yn fwy effeithiol trwy sicrhau ymgysylltu ystyrlon â Byrddau Diogelu Rhanbarthol ac asiantaethau statudol. Soniwyd y dylai'r cynllun gael ei adolygu er mwyn mynd i'r afael â'r bylchau hyn i wella ei effaith gyffredinol.

Cytunodd TS y byddai adborth y Bwrdd Cenedlaethol yn cael ei ystyried.

**8. Cwblhau Rhaglen Waith y Bwrdd Cenedlaethol ar gyfer 2025-2026:**

Cafodd y rhaglen waith ei hadolygu a'i chwblhau gyda diweddariadau ynghylch gwahanol gamau gweithredu. Cytunwyd y gellid cyfieithu'r Cynllun Gwaith a'i gyhoeddi ar wefan y Bwrdd Cenedlaethol.

**9. Trafodaeth ynghylch Cadeirydd y Bwrdd 2026-2029:**

Ystyriwyd y broses ar gyfer penodi Cadeirydd newydd y Bwrdd Cenedlaethol.

**10. Portffolios y Bwrdd Cenedlaethol:**

Trafodwyd portffolios y Bwrdd Cenedlaethol. Cytunwyd y byddai'r matrics portffolios yn cael ei rannu er mwyn i aelodau'r Bwrdd ei ddiweddaru. Byddai'r matrics terfynol yn cael ei rannu a'i drafod yn ystod y Diwrnod Datblygu arfaethedig.

**11. Ymgynghoriad – Ymateb, Uwchgyfeirio a Phryderon:**

Cytunwyd y byddai CJ yn drafftio ymateb ffurfiol y Bwrdd Cenedlaethol ac yn ei rannu ag aelodau'r Bwrdd er mwyn iddynt ei adolygu a chynnig sylwadau ychwanegol.

**12. Diweddariad ynghylch recriwtio i'r Bwrdd Cenedlaethol:**

Mae'r broses o recriwtio aelodau newydd i'r Bwrdd yn parhau ac yn disgwyl cael ei chadarnhau gan y Gweinidog. Disgwylir i'r cyfweliadau gael eu cynnal ar 27 Mehefin.

**13. Diwrnod Datblygu Gorllewin Morgannwg:**

Mae gwahoddiad wedi dod i law i'r Bwrdd Cenedlaethol fynychu Diwrnod Datblygu Gorllewin Morgannwg, sydd wedi'i drefnu ar gyfer 27 Mehefin. Cytunwyd y byddai DM yn mynychu, ac y byddai CJ ar gael fel eilydd pe bai angen.

**14. Wythnos Diogelu:**

Hysbysodd yr Is-gadeirydd y Bwrdd y byddai'r Bwrdd Cenedlaethol yn cynnal ei gynhadledd flynyddol ar 12 Tachwedd yn rhan o'i gyfraniad i'r Wythnos Diogelu.

Bydd y digwyddiad yn canolbwyntio ar blant, a'r thema benodol fydd "diogelu trosiannol". Mae'r Athro Christine Cocker, Prifysgol East Anglia, wedi cytuno i roi cyflwyniad ar "ddiogelu trosiannol".

Cysylltwyd â siaradwr sydd â phrofiad personol o hynny, a disgwylir cadarnhad y bydd ar gael.

Cafwyd cais i anfon hysbysiad "dyddiad i'r dyddiadur" at reolwyr busnes yr holl Fyrddau Diogelu Rhanbarthol er mwyn rhoi gwybod iddynt am gynhadledd y Bwrdd Cenedlaethol ar 12 Tachwedd a'i ffocws ar blant a diogelu trosiannol.

**15. Mewnflwch y Bwrdd Cenedlaethol:**

Nodwyd bod yna broblemau wrth geisio anfon negeseuon i fewnflwch y Bwrdd Cenedlaethol, a chadarnhaodd EL fod y mater wedi'i godi gyda'r sawl sy'n lletya'r wefan ac y byddai camau'n cael eu cymryd cyn gynted ag sy'n bosibl.

**16. Diweddariadau gan y Byrddau Rhanbarthol:**

Rhannwyd diweddariadau gan wahanol Fyrddau Rhanbarthol.

**17. Diweddariadau gan randdeiliaid:**

Darparwyd diweddariadau gan y Gwasanaeth Lles Addysg, Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Estyn, Swyddfa Archwilio Cymru, Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, y Fframwaith Amddiffyn Pobl Agored i Niwed, y Fforwm Gwrthgaethwasiaeth, a Grŵp Cynllunio'r 4 Gwlad.

**<u>Cyfarfodydd / Digwyddiadau nesaf:</u>**

- 3 Gorffennaf - Diwrnod Datblygu'r Bwrdd Cenedlaethol, Caerdydd
- 9 Gorffennaf - Cyfarfod mis Gorffennaf y Bwrdd Cenedlaethol, ar Teams

**Camau gweithredu:**

1. **Arolwg Diogelu yng Nghymru** – Bydd AM yn drafftio ymateb ac yn ei rannu er mwyn iddo gael ei adolygu.
2. **Jodi Evans – Ymddiriedolaeth Ann Craft** – Bydd EL yn cymryd camau dilynol i gadarnhau presenoldeb - ***Cwblhawyd***

3. **Adolygiad o drefniadau llywodraethiant** – Bydd TS yn rhannu cwestiynau allweddol o'r cylch gwaith â'r Bwrdd.
4. **Rhaglen Waith** – Bydd Emma yn anfon y rhaglen i'w chyfieithu ac yn ei chyhoeddi ar wefan y Bwrdd Cenedlaethol – ***EL wedi anfon y rhaglen i'w chyfieithu***
5. **Ymateb i ymgynghoriad –** (Uwchgyfeirio pryderon) Bydd CJ yn drafftio ymateb ac yn ei rannu er mwyn iddo gael ei adolygu.
6. **Proses ar gyfer penodi Cadeirydd** – Bydd TS yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf ar ôl cael cyngor pellach gan Lywodraeth Cymru.
7. **Portffolios** – Bydd EL yn ailddosbarthu'r portffolios wedi'u diweddaru er mwyn i aelodau'r Bwrdd eu hadolygu'n derfynol, a chânt eu trafod yn y Diwrnod Datblygu - ***Cwblhawyd***
8. **Diweddariad ynghylch recriwtio** – Bydd EL yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd Cenedlaethol wedi i'r Gweinidog gadarnhau'r trefniadau.
9. **Adolygiad Thematig Adolygiadau Ymarfer Plant** – Bydd EL yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Tony / Lin yn ôl yr angen.
10. **Diwrnod Datblygu Gorllewin Morgannwg** – Bydd EL yn cadarnhau bod Des yn mynychu, a bod Carys ar gael fel eilydd os oes angen - ***Cwblhawyd***
11. **Wythnos Diogelu** – Bydd EL yn anfon hysbysiad "dyddiad i'r dyddiadur" ynghylch y gynhadledd ar 12 Tachwedd.
12. **Mewnflwch y Bwrdd Cenedlaethol** – Datrys y problemau o ran anfon negeseuon gydag Adam. ***Mae Emma yn disgwyl i Simon ddatrys y broblem***
13. **Cefnogaeth ar gyfer y Gwasanaeth Lles Addysg –** Bydd CJ yn cymryd camau dilynol ynghylch cefnogaeth i ddull y Gwasanaeth Lles Addysg o ymdrin â Llywodraeth Cymru.
14. **Ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch adrodd mandadol** – Bydd AM yn drafftio ymateb.